Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Cylch Meithrin Abergwili
Ysgol Abergwili
Abergwili
Caerfyrddin
SA31 2JP

Dyddiad yr arolygiad: 24 Ionawr 2012

gan

Dorothy Morris

ar ran
Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Adroddiad ar Cylch Meithrin Abergwili
Ionawr 2012

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	**Yr hyn mae'r farn yn ei olygu**
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Cyd-destun

Lleolir Cylch Meithrin Abergwili yn ffreutur yr ysgol gynradd leol. Sefydlwyd y lleoliad yn 1993 ac mae'r plant sy'n mynychu yn byw yn y pentref a'r ardaloedd cyfagos. Bernir nad yw'r ardal yn ffyniannus nag ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol.

Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant dwy i bedair oed am bum sesiwn yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol. Mae ar agor rhwng 9:00 a 11:30 y bore. Yn ystod yr arolygiad, yr oedd yna ddeg plentyn tair oed ar y gofrestr. Saesneg yw iaith y cartref i'r rhan fwyaf ohonynt. Ar hyn o bryd, nid oes neb o gefndir lleiafrifoedd ethnig yn mynychu. Mae'r lleoliad yn derbyn plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae trefniadau cefnogi addas yn eu lle.

Mae yna ddau aelod o staff. Mae'r lleoliad yng ngofal y prif ymarferydd sydd yn meddu ar gymwysterau priodol ym maes addysg a gofal plant bach. Mae yna un ymarferydd profiadol arall llawn amser.

Cafodd y lleoliad ei arolygiad diwethaf gan Estyn yn Rhagfyr 2005 a chan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn Ebrill 2011.

Crynodeb

Perfformiad presennol y lleoliad	**Digonol**
Rhagolygon gwella'r lleoliad	**Digonol**

Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol y lleoliad yn ddigonol oherwydd:

- mae'r plant yn hapus yn y lleoliad ac yn mwynhau'r profiadau dysgu a ddarperir;
- mae'r ethos cynhwysol yn creu awyrgylch gynnes a chynhaliol i'r holl blant;
- mae perthynas agos rhwng yr ymarferwyr a'r plant;
- mae trefn esmwyth i rediad dyddiol y lleoliad;
- er hyn, mae datblygiad medrau dysgu'r plant yn anwastad;
- nid yw'r plant mwy galluog yn cael eu hymestyn yn ddigonol; ac
- mae ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn anghyson.

Rhagolygon gwella

Mae gan y lleoliad ragolygon gwella digonol oherwydd:

- mae'r ymarferwyr yn weithgar a chydwybodol;
- mae'r rhieni'n gefnogol;
- er hyn, nid yw'r addysgu yn rhoi ffocws digon cadarn ar ddatblygu medrau dysgu'r plant;
- nid oes strwythur digonol i'r dulliau arfarnu i sicrhau gwelliannau cyson yn y ddarpariaeth;
- mae gweithrediad y cynllun datblygu yn ei ddyddiau cynnar; ac
- mae'r dulliau arwain, gan gynnwys rôl y pwyllgor rheoli, yn fwy anffurfiol eu natur.

Argymhellion

Er mwyn datblygu, mae angen i'r lleoliad:

A1 gryfhau medrau cyfathrebu Cymraeg, rhif, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r plant, ac ymestyn medrau'r plant mwy galluog;

A2 fireinio'r cynllunio i roi ffocws clir ar gyflwyno geirfa a brawddegau sylfaenol Cymraeg yn gyson;

A3 gryfhau agweddau ar yr addysgu a dysgu; a

A4 datblygu'r dulliau hunan arfarnu a rheoli ymhellach.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?	Digonol

Safonau: Digonol

Gwna'r rhan fwyaf o'r plant gynnydd cyson yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Gweithiant yn galed gan gaffael gwybodaeth a medrau priodol ar draws y rhan fwyaf o feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Mae datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn dda. Mae'r mwyafrif yn cydweithio'n rhwydd gyda phlant eraill ac maent yn barod i rannu adnoddau.

Mae mwyafrif y plant yn gwrando'n dda ac yn ymateb yn gywir i gyfarchion a chyfarwyddiadau. Maent yn dangos dealltwriaeth gynyddol o eiriau cyfarwydd Cymraeg ond ymatebion byr iawn a geir ar lafar. Mae'r plant o gefndir Cymraeg yn barod i sgwrsio ac yn dangos gafael dda ar eirfa. Mae'r plant i gyd yn mwynhau edrych ar lyfrau ac mae'r rhan fwyaf yn adnabod eu henwau mewn ffurf print. Defnyddiant offer marcio yn addas mewn ystod o gyfryngau. Mae ychydig o'r plant yn medru ysgrifennu eu henwau yn gywir.

Gwna mwyafrif y plant ddefnydd cywir o'u medrau rhif sylfaenol mewn gweithgareddau bob dydd. Gallant gyfrif i bump gyda rhai unigolion yn cyfrif i ddeg. Maent yn deall rhai termau mathemategol, megis mawr a bach, mewn gweithgareddau ymarferol. Nid yw'r rhan fwyaf yn adnabod siapiau dau ddimensiwn sylfaenol a phrin yw eu gwybodaeth o ddefnydd arian. Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu cynnar y plant yn datblygu'n briodol. Gwnânt ddefnydd cywir o'r llygoden i symud gwrthrychau ar y sgrin a chwblhau tasgau syml. Ar adegau, gwnânt ddefnydd o gamera i dynnu lluniau.

Gwna'r plant ddefnydd effeithiol o'u medrau llawdrin mân yn eu gweithgareddau crefft. Gwna'r mwyafrif ddefnydd addas o'u medrau meddwl wrth chwilio am drysor yn y tywod ac adeiladu gydag offer gwahanol.

Lles: Da

Mae gan y mwyafrif o'r plant ymagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Gweithiant yn ddiwyd ar dasg gan fwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael. Mae pob un ohonynt wedi ymgartrefu'n dda yn y lleoliad. Maent yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni'r oedolion ac yn barod i ofyn am gymorth a chefnogaeth.

Mae gan y plant ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd ymarfer y corff a bwyta'n iach. Deallant bwysigrwydd glanhau dannedd yn gyson, a golchi dwylo cyn bwyta byr brydau. Maent i gyd yn cyd-chwarae'n hwylus ac yn ymddwyn yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn ymgymryd â phrofiadau newydd yn hyderus.

Mae medrau ac ymwybyddiaeth gymdeithasol y plant yn datblygu'n effeithiol drwy'r gweithgareddau dyddiol a thrwy brofiadau yn deillio o'r bartneriaeth agos gyda'r ysgol a'r gymuned.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	**Da**

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod o weithgareddau diddorol ar draws llawer o'r meysydd dysgu. Seilir y gweithgareddau ar gyfres o dopigau sy'n addas i ystod oed y plant. Gwneir defnydd cyson o fframweithiau cwricwlaidd ar gyfer cynllunio'r ddarpariaeth gyffredinol a thasgau penodol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu medrau cyfathrebu, rhifedd a medrau ehangach y plant wedi'i hymgorffori'n briodol yn y profiadau a ddarperir.

Darperir anogaeth gyson i'r plant ddefnyddio medrau Cymraeg yn eu dysgu a'u chwarae. Er hyn, nid oes ffocws digonol yn y cynllunio bob amser ar ymestyn iaith y plant. Mae'r ymarferwyr yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau Cymru yn effeithiol drwy weithgareddau megis dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored yn briodol i annog plant i arbrofi â phrofiadau newydd. Mae profiadau addas, megis tyfu a gofalu am blanhigion, ymweliadau â'r gerddi lleol a gweithdrefnau ailgylchu, yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd a phob peth byw. Caiff y plant gyfleoedd addas i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r byd ehangach, gan gynnwys pobl a diwylliannau eraill. Maent yn dathlu gŵyl Divali a'r flwyddyn newydd Tseiniaidd drwy ymwneud ag ystod o weithgareddau perthnasol yn cynnwys coginio a chrefft.

Addysgu: Digonol

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth ddatblygol o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac adlewyrchir hyn mewn agweddau ar yr addysgu. Defnyddiant ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau priodol i gynorthwyo'r dysgu. Maent yn cynnwys gweithgareddau a ddewisir gan y plant a thasgau ffocws sy'n cael eu harwain gan yr ymarferwyr. Er bod nod eglur i'r gweithgareddau, nid oes strwythur digonol bob amser i sicrhau dysgu cyson. Mae'r ymarferwyr yn cyfathrebu'n gyson gyda phlant mewn gweithgareddau grŵp bach ac mewn sesiynau llawn. Er hyn, ni wneir defnydd digonol o'r cyfleoedd i ail adrodd geirfa ac ymarfer patrymau brawddegol sylfaenol.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn medru trafod eu datblygiad cyffredinol yn fanwl. Maent yn arsylwi ar gynnydd ac ymateb y plant yn rheolaidd ac yn cofnodi eu harsylwadau yn briodol. Cedwir rhai enghreifftiau o waith y plant mewn ffolderi personol. Gwneir peth defnydd o'r wybodaeth a gesglir ar gyfer trefnu tasgau ond mae'r broses yn ei gyfnod cynnar. Caiff rhieni eu hysbysu am

gyflawniadau a lles eu plant yn anffurfiol a thrwy gofnod priodol a gwblheir wrth i'r plentyn drosglwyddo i'r ysgol gynradd. Yn ystod gweithgareddau, mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn derbyn y cymorth angenrheidiol.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae trefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae trefniadau dyddiol, gan gynnwys gweithdrefnau derbyn a rhyddhau plant, yn hyrwyddo hyn yn dda. Mae'r gweithdrefnau sefydlu'n sicrhau bod y plant yn ymgynefino'n gyflym yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn ofalgar a chynhaliol o'r holl blant.

Mae trefniadau addas ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae llinellau cyfathrebu clir gydag asiantaethau allweddol er mwyn mynd i'r afael ag anghenion penodol.

Mae profiadau effeithiol yn hyrwyddo datblygiad personol y plant yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae profiadau, megis dathlu'r Nadolig, yr ymweliadau â'r eglwys a'r cyfleoedd i ymuno mewn gwasanaethau arbennig, yn cyfoethogi datblygiad ysbrydol y plant yn effeithiol. Hyrwyddir eu hymwybyddiaeth o'r angen i helpu rhai llai ffodus trwy gyfrannu at weithgareddau casglu arian at achosion da.

Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu. Ymdrinnir yn briodol ag asesiadau risg o'r safle.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau a gyflwynir. Llwyddir i greu ethos cynnes a chroesawgar ar eu cyfer. Mae'r ymarferwyr yn ystyried ac yn gwerthfawrogi cefndiroedd amrywiol y plant ac yn gweithredu'n briodol yn unol â'r wybodaeth hon.

Mae nifer digonol o ymarferwyr sy'n meddu ar brofiad perthnasol. Mae'r lleoliad a'r cyfleusterau o ansawdd digonol a gwneir defnydd llawn o'r lle sydd ar gael. Mae'r arddangosfeydd a samplau o waith y plant yn cyfrannu at greu amgylchedd deniadol. Ceir adnoddau digonol sy'n cael eu defnyddio'n briodol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Gwneir defnydd da o'r lle dysgu allanol a'r ardal chwarae i ddarparu ystod o weithgareddau pwrpasol.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	**Digonol**

Arweinyddiaeth: Digonol

Mae'r ymarferwyr yn rhannu gwerthoedd cytûn ac yn ymrwymedig i ddatblygiad a lles y plant. Mae rheolaeth briodol i rediad dyddiol y sesiynau. Er hyn, mae'r gweithdrefnau cynllunio a rheoli'r ddarpariaeth gyflawn yng nghyfnod cynnar eu datblygiad.

Mae cyswllt agos gyda'r person cofrestredig ac mae'r lleoliad yn elwa o'r cymorth hwn. Mae aelodau'r pwyllgor rheoli hefyd yn barod i gynorthwyo. Ceir cydweithio da ac ymdrechion caled i godi arian er mwyn sicrhau adnoddau ychwanegol. Nid yw rôl y pwyllgor o fewn prosesau cynllunio i'r dyfodol a threfniadau monitro wedi datblygu cystal.

Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a sefydlu cysylltiadau effeithiol gyda'r ysgol gynradd. Y person cofrestredig sy'n gwerthuso gwaith yr ymarferwyr a dilynir strwythur priodol. Trafodir datblygiad proffesiynol pellach yr ymarferwyr, yn arbennig y prif ymarferydd, a chynllunnir cyfleoedd hyfforddiant priodol.

Gwella ansawdd: Digonol

Mae'r ymarferwyr yn cyd-drafod yn anffurfiol ac mae ganddynt wybodaeth gyffredinol o anghenion y lleoliad. Mae eu gwybodaeth am ddulliau arfarnu, megis myfyrio ar eu harfer a gweithredu yn sgil hynny, yn llai sicr. Caiff agweddau ar y ddarpariaeth eu monitro'n rheolaidd gan yr athrawes gyswllt a chytunir ar agweddau addas i gael sylw. Rhoddir strategaethau priodol ar waith.

Mae'r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac mae'r cynllun gwella a gynhyrchwyd cyn yr arolygiad yn ddatblygiad pwysig. Nodir meysydd priodol ar gyfer gwelliant ynghyd ag amserlen a chyfrifoldebau penodol er mwyn cyflawni'r targedau a osodir. Mae gweithrediad y cynllun hwn yn ei ddyddiau cynnar.

Mae'r cyswllt agos gydag athrawon yr ysgol gynradd o gymorth wrth drafod dulliau addysgu a dysgu. Defnyddir fframwaith a chanllawiau AGGCC ar gyfer gwneud adolygiad o'r ddarpariaeth a chynhyrchir adroddiad priodol i'r rhieni. Yn ychwanegol, cynhelir trafodaethau anffurfiol gyda'r rhieni yn achlysurol er mwyn canfod eu barn.

Mae'r ymarferwyr yn mynychu cyrsiau ar y cyd gyda staff yr ysgol gynradd ar agweddau megis gweithdrefnau diogelu.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae partneriaeth dda rhwng yr ymarferwyr a chydweithiant yn effeithiol fel tîm. Mae perthynas waith adeiladol hefyd gyda'r rhieni a chadarnhawyd hyn yn y sgyrsiau yn ystod yr arolygiad. Mae ymarferwyr ar gael yn rheolaidd ar ddechrau a diwedd pob sesiwn a darperir gwybodaeth berthnasol iddynt yn rheolaidd am weithgareddau'r lleoliad. Mae rhieni yn eu tro yn barod iawn i gynorthwyo'r lleoliad drwy weithgareddau megis creu lle addas allanol ar gyfer gweithgareddau dan do.

Sefydlwyd perthynas fuddiol gyda'r ysgol gynradd sy'n hyrwyddo trefniadau trosglwyddo. Mae'r berthynas dda gydag athrawes gyswllt yr Awdurdod Lleol a swyddog datblygu Mudiad Ysgolion Meithrin yn arwain at welliannau yng ngwaith y lleoliad. Mae'r cysylltiadau gyda'r gymuned yn cefnogi dysgu'r plant yn effeithiol.

Rheoli adnoddau: Digonol

Rheolir adnoddau yn briodol. Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n addas a cheir cyflenwad digonol o adnoddau. Mae'r ardaloedd chwarae a'r ardal dan do yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i'r plant ymgymryd ag ystod o weithgareddau. Gwneir defnydd effeithiol hefyd o adnoddau lleol, megis y swyddfa bost a gerddi'r amgueddfa leol, i ymestyn profiadau'r plant.

Mae gan y person cofrestredig ddealltwriaeth glir o'r gyllideb a chaiff penderfyniadau gwariant eu blaenoriaethu yn ôl anghenion y lleoliad. Gwneir defnydd effeithiol o grantiau ac o fentrau codi arian er mwyn ychwanegu at yr adnoddau. Gan ystyried deilliannau'r plant ac agweddau eraill ar y ddarpariaeth, mae'r lleoliad yn rhoi gwerth digonol am arian.

Atodiad 1

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron rhieni oherwydd y nifer fach o ymatebion a dderbyniwyd.

Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Mae'r plant yn hapus yn y lleoliad ac yn ymuno'n frwdfrydig yn y gweithgareddau. Mae rhai unigolion yn sgwrsio'n barod am eu hoff weithgareddau.

Atodiad 2

Dorothy Morris	Arolygydd Cofnodol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Rhestr termau

AGGCC	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
Athro ymgynghorol awdurdod lleol	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
Y Cyfnod Sylfaen	Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau
Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
Meysydd Dysgu	Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn: • datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu • datblygiad mathemategol • datblygu'r Gymraeg • gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • datblygiad corfforol • datblygiad creadigol
Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.
Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012.
Mudiad Meithrin	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.